

Mewnblaniad falf-mewn-falf feitrol trawsgathetr trawsapigol ar gyfer bioprosthesis falf feitrol a fewnblannwyd drwy lawdriniaeth yn aflwyddiannus

Rhagfyr 2015

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Edrychodd NICE ar y driniaeth hon ar gyfer pobl nad yw rhagor o lawdriniaeth agored ar y galon yn opsiwn iddynt. Prin yw'r dystiolaeth sy'n dangos pa mor dda y mae [mewnblaniad falf-mewn-falf feitrol trawsgathetr trawsapigol](#) ar gyfer [bioprosthesis falf feitrol a fewnblannwyd drwy lawdriniaeth yn aflwyddiannus](#) yn gweithio yn yr hirdymor, na pha mor ddiogel ydyw yn y bobl hyn. Dylai ond cael ei defnyddio os rhoddir esboniad manwl o'r risgiau a bod camau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith i gofnodi ac adolygu beth sy'n digwydd.

Mae NICE yn gofyn i weithwyr iechyd proffesiynol anfon gwybodaeth am bawb sy'n cael y driniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt ar ôl hynny i [gronfa ddata y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil i Ganlyniadau Cardiofasgwlaidd \(NICOR\)](#) er mwyn gallu cadarnhau pa mor ddiogel yw'r driniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio dros gyfnod o amser.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Yn benodol, dylai esbonio'r ansicrwydd ynghylch pa mor debygol ydyw o wella eich symptomau a'r posibilrwydd o gymhlethdodau difrifol. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dim ond ar ôl cael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi a hoffech gael y driniaeth hon. Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol ofyn i chi a ellir casglu manylion am eich triniaeth.

Eich tîm gofal iechyd

Dylai tîm gofal iechyd profiadol benderfynu pa gleifion ddylai gael dewis y driniaeth hon, a dylai gwblhau'r driniaeth. Dylai'r tîm gynnwys llawfeddyg y

galon, meddyg sy'n arbenigo mewn trin y galon gan ddefnyddio cathetrau (a elwir yn gardiolegydd ymyriadol), anesthetydd y galon ac arbenigwr mewn delweddu cardiaidd sydd â phrofiad o reoli'r cyflwr ac sydd wedi cael hyfforddiant penodol a phrofiad o ran triniaethau mewnblannu falf trawsgathetr. Dylid cynnal y driniaeth mewn unedau lle mae arbenigwyr llawdriniaeth y galon a phibellau gwaed ar gael rhag ofn bod angen triniaeth frys.

Y cyflwr

Mae'r falf feitrol yn gorwedd rhwng siambrau chwith y galon. Mae'n atal gwaed rhag llifo yn ôl o'r siambr gwaelod i'r siambr uwch pan fydd y galon yn cywasgu i bwmpio gwaed wedi'i ocsigeneiddio o'r ysgyfaint i'r corff. Gall y falf ddechrau methu, fel arfer naill ai am ei bod yn culhau neu am ei bod yn gollwng. Mae hyn yn effeithio ar lif y gwaed drwy'r galon i'r corff. Mae'n rhoi pwysau ychwanegol ar y galon, a all arwain at ddiffyg anadl, blinder a chrychguriadau'r galon.

Mae'r driniaeth ar gyfer falf feitrol sy'n methu fel arfer yn golygu tynnu'r falf a gosod falf fecanyddol neu fioprosthetig artiffisial yn ei lle (falf wedi'i gwneud o feinwe anifail neu gyfuniad o feinwe anifail a deunyddiau eraill). Mewn pobl sy'n ddigon iach, gwneir hyn fel arfer drwy lawdriniaeth agored ar y galon.

Mae gan falfiau bioprosthetig rai manteision o gymharu â falfiau mecanyddol ond maent yn fwy tebygol o dreulio a methu dros amser. Fel arfer, caiff falf newydd ei gosod yn lle'r falf fioprosthetig sydd wedi methu drwy lawdriniaeth agored ar y galon ond mae'r risgiau yn uwch os caiff y llawdriniaeth ei hailadrodd nag yn y llawdriniaeth gyntaf.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio [mewnblaniad falf-mewn-falf feitrol trawscathetr trawsapigol](#) fel opsiwn triniaeth arall.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Y driniaeth

Os bydd falf fioprosthetig yn methu, gellir gosod falf fioprosthetig arall ynddi gan ddefnyddio cathetr (tiwb). Gelwir hyn yn fewnblaniad falf-mewn-falf feitrol

trawsgathetr trawsapigol. Y nod yw mewnosod falf newydd heb fod angen llawdriniaeth ar y galon mewn pobl y byddai hyn yn achosi risg uchel iddynt.

Yn achos y driniaeth hon, caiff y falf newydd ei mewnosod drwy gathetr i mewn i'r galon gan ddefnyddio anesthetig cyffredinol. Caiff y cathetr ei fewnosod yn y corff drwy doriad yng nghroen y frest a thrwy dwll bach yng ngwaelod wal y galon. Caiff hen agoriad y falf ei ehangu a chaiff y falf newydd ei gosod y tu mewn i'r hen un drwy'r cathetr. Defnyddir prosesau delweddu i helpu'r llawfeddyg i osod y falf newydd yn gywir. Yna, caiff y system cathetr ei thynnu allan a chaiff y twll yn y frest ei gau. Rhoddir gwrthfotigau er mwyn atal haint a chyffuriau i atal y gwaed rhag ceulo cyn y driniaeth ac yn ystod y driniaeth. Weithiau, defnyddir peiriant calon-ysgyfaint yn ystod y driniaeth er mwyn gweithredu dros dro yn lle'r galon.

Buddiannau a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynwyd nad oes llawer o dystiolaeth dda ynglŷn â pha mor dda y mae mewnblianiad falf-mewn-falf feitrol trawsgathetr trawsapigol yn gweithio yn yr hirdymor a bod posibilrwydd o gymhlethdodau difrifol. Ond, penderfynodd bod y dystiolaeth yn dangos bod symptomau wedi'u lliniaru'n dda yn y byrdymor yn gyffredinol. Roedd yr wyth astudiaeth (gan gynnwys cofrestrfa) a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 406 o gleifion.

Dangosodd astudiaeth o 23 o gleifion y buddiannau canlynol:

- falf wedi'i mewnbliannu'n llwyddiannus mewn 100% o gleifion
- 100% o gleifion yn fyw 30 diwrnod ar ôl llawdriniaeth, a 90% yn fyw o hyd ar ôl cyfartaledd o 753 diwrnod
- gwelliant yn symptomau methiant y galon ac yng ngweithrediad y galon.

Dangosodd yr wyth astudiaeth fod y risgiau'n cynnwys y canlynol:

- 1 siawns mewn 10 o farwolaeth o fewn cyfartaledd o 753 diwrnod i'r llawdriniaeth
- niwmonia angheuol mewn un claf a'r angen am awyru â chymorth estynedig mewn tri chlaf

- strôc fawr mewn 3-4% o gleifion a strôc fach mewn un claf
- gwaedu difrifol mewn 26% (6 o 23) o gleifion a gwaedu hwyr mewn 33% (2 o 6) o gleifion
- anaf aciwt i'r aren mewn 11% (39 o 349) o gleifion
- haint clwyf mewn 25% (3 o 13) o gleifion
- roedd angen rheolydd calon parhaol ar un claf
- ceulad gwaed yn y falf mewn un claf
- roedd angen mewtblannu ail falf mewn un claf.

Dywedwyd wrth NICE hefyd am risg arall bosibl: rhwystr yn siambr chwith is y galon gan atal gwaed rhag llifo o'r galon i'r corff.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y [canllaw](#). Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae [canllawiau ymyriadau](#) NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-1735-8